ATODLEN 3

Samplu a dadansoddi

# RHAN 1

## Cyffredinol

**Samplau: cyffredinol**

**1.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob sampl—

(a) wedi ei chymryd gan berson cymwys gan ddefnyddio cyfarpar addas;

(b) yn gynrychiadol o'r dŵr yn y pwynt samplu ar adeg y samplu;

(c) heb ei halogi wrth ei chymryd;

(ch) wedi ei chadw ar y cyfryw dymheredd ac o dan y cyfryw amodau a fydd yn sicrhau na ddigwydd unrhyw newid perthnasol yn yr hyn a fesurir; ac

(d) yn cael ei dadansoddi yn ddi-oed, gan berson cymwys sy'n defnyddio cyfarpar addas.

(2) Rhaid iddo sicrhau y dadansoddir y sampl gan ddefnyddio system o reolaethau ansawdd dadansoddi.

(3) Rhaid i'r system honno gael ei gwirio gan berson—

(a) nad yw dan reolaeth y dadansoddwr na'r awdurdod lleol; a

(b) a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw.

**Dadansoddi samplau**

**2.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob sampl yn cael ei dadansoddi yn unol â'r paragraff hwn.

(2) Ar gyfer pob paramedr a bennir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 yn Rhan 2 o'r Atodlen hon, pennir y dull o ddadansoddi yn ail golofn y tabl hwnnw.

(3) Ar gyfer pob paramedr a bennir yng ngholofn gyntaf Tabl 2 yn Rhan 2 o'r Atodlen hon mae'r dull yn un sydd â'r gallu—

(a) i fesur crynodiadau a gwerthoedd gyda'r gwiredd a thrachywiredd a bennir yn ail a thrydedd golofn y tabl hwnnw; a

(b) i ganfod y paramedr ar y terfyn canfod a bennir ym mhedwaredd golofn y tabl hwnnw.

(4) Yn achos ïonau hydrogen, rhaid i'r dull dadansoddi fod â'r gallu i fesur â gwiredd o 0.2 uned pH a thrachywiredd o 0.2 uned pH.

(5) Rhaid i'r dull dadansoddi a ddefnyddir ar gyfer y paramedrau arogl a blas fod yn alluog i fesur gwerthoedd hafal i'r gwerth paramedrig gyda thrachywiredd o 1 rhif gwanedu ar 25°C

(6) At y dibenion hyn—

"terfyn canfod" yw—

(a) tair gwaith y gwyriad safonol perthynol o fewn swp, o sampl naturiol sy'n cynnwys crynodiad isel o'r paramedr; neu

(b) pum gwaith y gwyriad safonol perthynol o fewn swp, o sampl gwag;

"trachywiredd" (sef yr hapgyfeiliornad) yw dwy waith gwyriad safonol (o fewn swp a rhwng sypiau) gwasgariad y canlyniadau o amgylch y cymedr;

"gwiredd" (y cyfeiliornad systematig) yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth cymedrig y nifer fawr o fesuriadau mynych a'r gwir werth.

**Awdurdodi dulliau amgen o ddadansoddi**

**3.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi defnyddio dull gwahanol i'r un a nodir ym mharagraff 2(2) os bodlonir hwy bod y dull hwnnw o leiaf yr un mor ddibynadwy.

(2) Cânt osod terfyn amser ar unrhyw awdurdodiad, a'i ddirymu unrhyw adeg.

**Samplu a dadansoddi gan bersonau ac eithrio awdurdodau lleol**

**4.**—(1) Caiff awdurdod lleol ymuno mewn trefniant i unrhyw berson gymryd samplau a'u dadansoddi ar ran yr awdurdod lleol.

(1) Rhaid i awdurdod lleol beidio ag ymuno mewn trefniant o dan baragraff (1) oni fydd—

(a) yn fodlon y cyflawnir y dasg yn brydlon gan berson sy'n gymwys i'w chyflawni, a

(b) wedi gwneud trefniadau i sicrhau y caiff yr awdurdod lleol ei hysbysu ar unwaith ynghylch unrhyw doriad o'r Rheoliadau hyn, ac o unrhyw ganlyniad arall o fewn 28 diwrnod.